

## Ein Lle yn y Byd

**Llanelli cyfrifol byd eang. Lle sydd, pan yn gwneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn cymryd i ystyriaeth os yw gwneud rhywbeth o'r fath yn gallu gwneud cyfraniad positif i lesiant byd eang a'r capasiti i addasu newid (er enghraifft, newid hinsawdd).**

### Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae'r Cynllun Lle Cyfan yn cael ei yrru gan faterion ynglŷn â chymunedau lleol yn 2015. Tra bod ymwybyddiaeth gyfyng o heriau tymor hir yn y dyfodol-poblogaeth yn heneiddio, newid hinsawdd, map yr economi'n newid - mae trefniadau trefniadaeth a gwleidyddol presennol yn tueddu i ffocysu ar anghenion cyfredol heb gymryd i ystyriaeth anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad i lawer o benderfyniadau unigol e.e. adeiladu neu beidio, sicrhau is adeiledd priodol, lleihau darpariaeth gwasanaeth penodol yn cael eu gwneud heb gymryd i ystyriaeth yn llawn eu heffaith hir dymor. Mae cymunedau a chymdeithasau lleol yn ei chael hi'n anodd asesu penderfyniadau yn erbyn gweledigaeth o ddyfodol posibl.

Ar yr un pryd mae angen mwy o wybodaeth gymunedol am fuddion positif mabwysiadu ymddygiad 'gwyrrd'.

### Ymyriadau arfaethedig

**Profi'n penderfyniadau yn y dyfodol** - Wrth weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus arfaethedig, y Cyngor Tref, y Cyngor Sir, rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a'r Ardal Gwella Busnes arfaethedig fe fyddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol wrth asesu ein penderfyniadau i sicrhau datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

- **Tymor hir** - cydbwysu anghenion byr dymor gyda'r angen i amddiffyn ein gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir
- **Ataliad** - Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth
- **Integreiddio** - Sut mae ein hamcanion cyfunol i drosglwyddo cefnogaeth llesiant yn ategu ei gilydd
- **Cydweithio** - gweithio gyda'n gilydd i wneud pethau'n well
- **Ymgysylltiad** - ymgysylltu pawb sydd â diddordeb yn ein nodau a gwneud yn siŵr bod gan ein cymunedau gwahanol lais cyfartal

**Hyrwyddo ffyrdd o fyw gwyrrd**- Dwyn at ei gilydd a hyrwyddo'r buddion i'r gymuned o fyw bywydau gwyrrdach- amlygu awgrymiadau ymarferol i sicrhau arbedion cost a buddion iechyd wrth leihau'r defnydd o ynni, cynyddu ailgylchu, cerdded a seiclo.

**Partneriaid** - Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Gwasanaeth Lleol/Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, Cyngor Tref Llanelli, Ardal Gwella Busnesau, Cymunedau'n Gyntaf, Cynnal Cymru (Sustain Wales).

**Mesuriadau cynnydd** - Adroddiada blynyddol ynglŷn a chynnydd gtyda Chynllun Lle Cyfan a lledu egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy.

**Blaenoriaethau Lleol** - Fel sydd wedi'i nodi yn y proffilau lleoedd.